Canlyniadau Gwaith Cartref 2025

Beirniaid

- Iestyn Tyne [Rhyddiaith] Robat Powel [Barddoniaeth]
- Geraint Cynan [Cerddoriaeth] Irfon Bennet [Ffotofraffiaeth]

	Cystadleuaeth	Enillydd	Gwobr
1	Rhyddiaith blwyddyn 2 i 4	Robin Goch - Nansi Gwen Williams	£5
3	Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9	Cŵl Dŵd - Esyllt Gruffydd	£10
5	Y Fedal Ryddiaith	Coch y Bonddu – Ann Davies	Medal a £50
6	Llên meicro	Glenys - Martyn Huws	£10
7	Adolygiad	Morgrugyn Pitw Bychan - Mathew Bill	£10
8	Rhyddiaith y dysgwyr	Amelia - Amelia Davies Bl11 Ysgol Bae Baglan	£10
11	Barddoniaeth blwyddyn 7 i 9	Celyn Deryn 5074 - Gethin Frohawk	£10
12	Barddoniaeth blwyddyn 10 i 13	Ap Hedd - Twm Rhys	£10
13	Y Gadair	Gogor Bach – John Emyr	Cadair a £50
14	Englyn ysgafn	Drilio'n ddwfn – Martin Huws	£10
15	Englyn	Beaufort – Alan Iwi	£10
16	Cerdd rydd	Morgrugyn Pitw Bychan – Mathew Bill	£20
17	Cerdd gaeth	Y Drefn Dragywydd - Eirian Dafydd	£20
18	Cyfansoddi geiriau emyn	Ffynnon – Eirian Dafydd	£10
20	Tlws yr Ifanc	Caradog – Heledd Evans	Tlws a £50
21	Cyfansoddi cerddoriaeth cynradd	Topas16 - Faith Manville-Parry	£10
22	Cyfansoddi cerddoriaeth uwchradd	Sgŵd – Saga Stand	£15
23	Cyfansoddi cerddoriaeth agored	Pili Pala – Dan Gibson	£50
25	Ffotograffiaeth cynradd	Moana – Greta Marged Wyn	£5
26	Ffotograffiaeth uwchradd	Blodyn - Eos Aaron	£10
27	Ffotograffiaeth agored	Golwg Tywi – Angharad Haf Wyn	£15

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Cerddoriaeth

CYSTADLEUAETH 21

Enw'r Ymgeisydd : Topas16 Enw'r Cyfansoddiad : Caleidoscop

Yn y categori hwn, dim ond un cyfansoddiad a dderbyniwyd a hwnnw'n ddarn i delyn unigol. Serch hynny, mae'r cynnyrch yn addawol ac yn dangos arwyddion pendant o allu'r cyfansoddwr ifanc i lunio darn swynol, dychmygus sydd ag iddo lais eglur. Mae yma strwythur gadarn, gyda ffigwr ostinato yn gefn i'r idiom gyfansoddi. Mae'r ffigwr yn pasio o'r llaw dde i'r llaw chwith ac yn datblygu'n raddol wrth gyflwyno gwrth ffigyrau sy'n cadw diddordeb y gwrandäwr yn ddios. Ceir ymdrech deg i liwio'r perfformiad wrth ddefnyddio deinameg gywir a phwrpasol, ac mae tystiolaeth ystod o dechnegau perfformio yma gan gynnwys elfennau taro megis tapio ar seinfwrdd yr offeryn a'r defnydd cynnil o harmonics. Maent oll yn ychwanegu lliw a haenau i'r darn hwn sy'n apelgar i'r glust, ac sy'n paentio delweddau sain braf. Ewch ati i wrando ar fwy o gyfansoddiadau o bob math o genre a pharhewch â'ch cyfansoddiadau wrth arbrofi mwy. Efallai gallech ymestyn eich ystod cyfansoddi i gynnwys trawsgyweiriadau, harmonïau a rhythmau mwy dyfeisgar a choeth o hyn ymlaen. Llongyfarchiadau a diolch am gystadlu. Gwobrwyir Topas16.

CYSTADLEUAETH 22

Cafwyd cystadleuaeth glos yn y categori uwchradd - dau gyfansoddiad cwbl gyferbyniol a'r ddau yn dangos stôr o rinweddau addawol. Cyfansoddiad eang a hyderus gan Ystlum568 o'r enw Rhyd Waedlyd oedd y cyntaf i law - darn eofn i gerddorfa gyfan ag iddo naws dywyll o'r cychwyn. Mae'n gyfansoddiad uchelgeisiol gan gyfansoddwr sy'n defnyddio holl liwiau offerynnau'r gerddorfa i fynegi ei weledigaeth ef/gweledigaeth hi o'r pwnc dan sylw. Yn strwythurol, ma'r brif thema'n cael ei basio o gwmpas y gerddorfa gyda rhywfaint o ddefnydd o gwestiwn ac ateb. Ym mar 84 daw newid naws a chyflwynir ail adran sy'n fwy myfyriol na'r cyntaf i raddau cyn codi i grescendo ac yn ôl i ddiweddglo heddychlon. Darn heriol gyda digon o ddiddordeb ymysg y gwahanol offerynnau. Os oes gwendid, efallai fod na ychydig o or-sgorio i'r offer taro ac mae ambell ddarn yn drwsgl o ran cyfuniadau offerynnau. Fodd bynnag, manion yn unig yw'r rhain a bydd y cyfansoddwr yn siŵr o fireinio hyn i'r dyfodol gyda phrofiad. Dalied ati - mae addewid pendant yma. Llongyfarchiadau a diolch am gystadlu. Yn ail derbyniwyd cân gyfoes ar eiriau gwreiddiol o dan y teitl Cynefin gan Sgŵd. Cychwyn apelgar i'r glust gyda'r genre yn dangos nodweddion o ganu pop a thinc o arddull Sioe Gerdd Gyfoes. Mae'r gwaith piano, y cynllun cordiau a'r alaw yn gweu'n naturiol i gyfleu darn hyderus, pwrpasol a chywrain. Cryfder y gân yw'r alaw swynol - mae'r cyfansoddwr/wraig yn gwybod sut i lunio melodi ag iddo bwrpas, cyfeiriad a diddordeb, a hynny heb straen nac wrth fod yn ymwthiol. Mae hookline y cytgan yn drawiadol a chofiadwy ac mae ôl gwrando ar gyfansoddiadau tebyg a chymryd elfennau gorau a'u troi'n syniadau effeithiol. Mae'r darn yn daclus, fentrus a chlir ei idiom, yn mynd i'r mannau sydd angen cyn dychwelyd yn ôl i ddiweddglo cysurus a hynny heb ystrydebu. Efallai gellir fod

wedi tacluso ambell i wall ieithyddol yn y geiriau, ond eto fe ddaw hyn gydag amser. Llongyfarchiadau a diolch am gystadlu. Anodd oedd pwysoli'r ddau ddarn hynod wahanol hyn - mae rhinweddau da gan y naill a'r llall, ond dwi'n credu (o fewn y genre perthnasol) bod cynnig Sgŵd yn mynd â hi ar sail ei fod yn gyfansoddiad mwy aeddfed. Serch hyn, mae'r ddau ymdrech wedi goleuo'r gystadleuaeth a daliwch ati i'r dyfodol, gan gofio arbrofi ac ymarfer eich crefft gan fireinio eich gwaith yn ddi-baid. Mewn cystadleuaeth glos, gwobrwyir Sgŵd.

CYSTADLEUAETH 23

Enw'r Ymgeisydd : PiliPala Enw'r Cyfansoddiad : Gorwelion

Unwaith eto, un cyfansoddiad oedd yn y categori yma - trac sain ar ffurf ffeil mp3 gyda 'groove' hamddennol a phleserus nath gydio o'r curiad cyntaf. Mae'r cywair D yn gosod cefnlen lachar, gyda phrysurdeb rhythmau'r drwms a'r bas yn rhoi cadernid a bît digyfaddawd i'r cyfansoddiad. Mae sampl llinynnau'n britho'r trac gan ychwanegu diddordeb ac egni tra bod economi'r allweddau a'r gitâr yn tanlinellu naws cŵl y cyfansoddi. Ailadroddir y ffigyrau gyda phytiau o fyrfyfyrio gan ystod o offerynnau electronig i gynnig clytwaith o syniadau difyr sy'n ei gwneud yn anodd peidio ymateb yn ffafriol i'r darn bywiog, heintus. Os oes gwendid, efallai gellir fod wedi strwythuro Middle 8 neu floc offerynnol amgen sy'n trawsgyweirio i ychwanegu lefel arall o ddyfeisgarwch, cyn dychwelyd eto i'r brif thema. Fodd bynnag, mae'n ddarn addawol sy'n dangos digon o elfennau cadarnhaol a dealltwriaeth o'r genre boblogaidd. Llongyfarchiadau a diolch am gystadlu. Gwobrwyir PiliPala.

CYSTADLEUAETH 24

Yn y categori hwn, ni ddaeth yr un cyfansoddiad i'r fei, felly ni chafwyd cystadleuaeth ac fel hyn, ataliwyd y wobr.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Cystadleuaeth Y Gadair: 'Cysgodion'

Daeth 11 ymgais ar y Gadair i law. Nid yw 'Cysgodion' yn destun newydd, ond mae'n cynnig nifer di-ben-draw o bosibiliadau i'r beirdd a chafwyd amrywiaeth ddifyr o themáu yn eu gwaith. Yn wir, cystadleuaeth o safon uchel oedd hon a dylid llongyfarch pwyllgor yr Eisteddfod am ei threfnu.

Didolaf y cynigion yn ddau ddosbarth, ond hoffwn bwysleisio i mi gael mwynhad o ddarllen yr holl gerddi, a bod syniadau a chrefft i'w gwerthfawrogi ym mhob un gwaith yn yr ail ddosbarth yn ogystal â'r cyntaf. Fodd bynnag, gofynnai'r rheolau am un gerdd neu 'ddilyniant o gerddi', ac roedd y diffyg dilyniant neu ffocws yn wendid mewn rhai cynigion.

Dyma ychydig o sylwadau ar bob un, nid mewn unrhyw drefn teilyngdod o fewn eu dosbarth.

Yr 2ail ddosbarth

Rhiwen: Awdl ar bedwar gwahanol fesur, a'r gwrthdaro rhwng Israel a'r Palestiniaid yw'r mater. Cynganeddwr galluog yw Rhiwen, mae swmp o waith yma, ac mae'n cynnal stori ei awdl hyd y diwedd. Mae yma ambell wall gramadegol, fel 'i hwy' a 'drwy hwy', ac mae nifer o linellau braidd yn aneglur neu'n dangos straen, fel 'Had daniai anghytuno'. Byddai'r awdl yn gryfach petai llai o eirfa haniaethol, e.e., 'Ar rai a daenodd hwy a'u crediniaeth.' Gellid canolbwyntio ar ffawd un teulu o Balestiniaid neu Iddewon i wneud y gerdd yn fwy teimladwy.

Garthlas: Cyfres o bedair cerdd rydd, ond nid oes dilyniant i'w weld. Mae pob un yn dwyn yr un teitl, 'Cysgodion'. Mae'r grefft yn hyderus, llinellau o hyd cyson a llawer i gyffyrddiad o gynghanedd. Ceir ambell ddelwedd effeithiol, megis, 'Doluriau ar ben talar, / Cwysi hir o gasineb.' Ond braidd yn gymysglyd yw'r gerdd gynta, a'r ail gerdd yn ddryslyd gyda llinellau fel, 'Ymyrraeth, mae'n waeth, mae'n hyll, / aflonyddwyd yn y gwyll ..' Dengys Garthlas addewid sicr, ond byddai darluniau cliriach yn cryfhau'r gwaith.

Gole'n gwanhau: Cyfres o chwe cherdd, pob un â rhif blwyddyn uwch ei phen o 2019 hyd 2024. Mae'r iaith lafar yn helpu creu cameos bach, byw, ymhob cerdd, tra mae sawl cyffelybiaeth wreiddiol, fel, ' 'y meddwl fel barcud heb gordyn.' Bardd dawnus, ond yn anffodus, mae'n anodd gweld unrhyw gysylltiad rhwng y cerddi nac â'r testun 'Cysgodion,' a'r gystadleuaeth yn gofyn am 'ddilyniant.'

Mared: Ymson hoffus tra mae'r bardd yn aros mewn parc rhwng apwyntiadau ysbyty. Clywn yr argraffiadau sy'n croesi meddwl y bardd wrth iddo/iddi aros, a cheir naws hiraethus wrth iddo gofio am rai nad yw yno mwyach. Ceir ambell ddelwedd drawiadol fel y tri chraen sy'n ffurfio Golgotha ar y safle adeiladu, a cheir cyfeiriadaeth ogleisiol at farddoniaeth Waldo. Ond gwelir rhai llinellau rhyddieithol hefyd, a'r gerdd yn troi yn ei hunfan, braidd.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Neon: Cerdd vers libre ddiffuant yn portreadu dyn digartref ar strydoedd y ddinas sy'n marw yno yn y diwedd. Ceir ambell fflach fel, 'stryd / nad yw'n arwain i unlle / nac yn newid ei thymer..', ond mae rhannau rhyddieithol hefyd, fel sôn am 'gyflwr truenus ..' a 'caiff o nawr / wared o'i holl gysgodion.' Sylwed Neon nad oes angen hirnod uwchben geiriau fel 'gwag', 'te' a 'mwg'.

Rhy agos: Dialog rhwng 'Fi' a 'Fe', a defnyddir rhythmau effeithiol yn y vers libre. Awgrymir i ddechre fod perthynas, dreisgar efalle, ar fin datblygu rhyngddyn nhw, ond buan yr aiff y gerdd yn gymysglyd ac nid yw'r hawdd gweld beth sy'n digwydd. Mae rhai delweddau bachog yn colli eu heffaith oherwydd aneglurder, e.e., 'Ond atgof yn datod / fel neidir yn dadrolio.' Anodd amgyffred sut mae 'Anti Gwen' yn dod i mewn i'r hanes i winio.

Y dosbarth 1af

Rhoddaf bum bardd yn y dosbarth cyntaf. Mae pob un o'r rhain yn fardd o safon sy'n deall ei grefft, a gallan nhw ymfalchïo yn y cerddi maen nhw wedi'u llunio. Dyma nhw, heb fod yn nhrefn teilyngdod.

Awel Afon: Pedwar cywydd byr o wyth llinell yr un. Y thema yw erchyllterau Rhyfel Cartref Sbaen a'r waddol asgell-dde a adawyd ar ei ôl yn y Cortes a phlaid Vox. Cawn ddarluniau iasol o dre Belchite a adawyd yn adfeilion, a'r henwyr sy'n cloddio am gyrff Gweriniaethwyr a saethwyd yn Priaranza del Bierzo. Mae'r gynghanedd yn llyfn, os yn syml at ei gilydd, 'Mae tref Belchite'n sefyll / yn unig iawn yn y gwyll', ac mae ambell wall fel 'Mentro i ddatguddio bedd' (dim cynghanedd), ac nid yw 'gwyn' yn odli gyda 'gwenwyn' – bai lleddf a thalgron.

Cyhŷdd: Un gerdd vers libre yn disgrifio'r profiad o eistedd yng Nghadeirlan Llan-daf. Mae yma ddarlun cyfoethog o naws a lliwiau'r prynhawn ac effeithiau golau'r haul sy'n ymbelydru trwy'r ffenestri. Ceir trosiadau fel, 'pan gydia bysedd rhosynnog yr haul / yng nghwr carthen y gorwel, / a'I thynnu dros wely'r dydd ..' Er hynny, mae ambell ddisgrifiad yn taro'n chwithig, fel yr Esgob William Morgan '.. a hoeliodd y Gymraeg ar ein hil,' a sôn yn y diweddglo am '.. cysgodion y gorffennol … yn goleuo fy myd.' Yn wir, nid yw cysgodion yn amlwg iawn trwy'r gerdd.

Gogor Bach: Cyfres o saith cerdd gaeth, tair yn un pennill. Gan ddechre gyda cherdd deimladwy am ei ddiweddar dad, aiff y bardd ymlaen i drafod y trallod yn Wcrain a Gaza, cyn chwilio am fodd i chwalu'r cysgodion hynny, a'i gael mewn maddeuant a neges 'Meseia' Handel. Mae'n feistr ar y gynghanedd, yn ei thrin yn gywrain i fynegi ei ofidiau, 'Ymestyn rwyf am ystyr / byd o boen bywydau byr.' Mae'r cerddi hefyd yn ffurfio cyfanwaith taclus o ddatblygiad syniadau. Yr un amheuaeth yw nad yw'r gerdd agoriadol am y tad â 'dylanwad ei lawenydd' yn eistedd yn gyfforddus yn natblygiad y gwaith.

Osian: Pedair cerdd vers libre am ymweld â lleoliadau yn Sain Ffagan. Mae gafael hyderus iawn ar iaith gan Osian a naws hydeiml i rai o'r disgrifiadau. Cyfoethogir y mynegiant gan y defnydd o drosiadau, fel castell Sain Ffagan yn 'iarlles o gastell … tapestri'r gerddi'n fantell

amdani ..' a'r coed addurniedig yn 'angylion ein hamserau'. Fodd bynnag, gwelir hefyd rai rhannau go niwlog eu hystyr, fel yr anesmwythyd yn ail hanner 'Canu carolau' ac arwyddocâd tician y clociau yn niweddglo 'Calan Gaeaf'.

Osian 2: Pump o gerddi ar wahanol fesurau caeth. 'Cysgodion' y bardd yw cymeriadau'r gorffennol a'r waddol maen nhw wedi'i gadael i ni heddiw. Cynganeddwr rhwydd yw Osian 2 sy'n gwybod sut mae cyfleu teimlad trwy ei ddelweddau. Mae'r gerdd 'Daniel Williams Bardd Gwlad' yn creu awyrgylch heintus wrth ddisgrifio adfail y fferm, 'Rwbel, a darn o gribyn – o rywfath / fu'n crafu pob gronyn / o'r mawn yn fara menyn'. Ond mae yma hefyd nifer o frychau yn y cynganeddion, e.e., 'Mae cadlas o goed gleision', ' .. – mae ymson / ac amser diderfyn ..', ac ambell linell ddiystyr fel '.. a'r rhedyn eu gwaredu.'

Mae safon y pum gwaith yn y dosbarth cyntaf yn uchel iawn, ac mae angen hollti blew i wahaniaethu rhyngddyn nhw. Yn y diwedd roedd yn ddewis rhwng Gogor Bach ac Osian (Sain Ffagan). Am fod ei gerddi'n ffurfio mwy o ddilyniant a chyfanwaith, am ei gywirdeb, a'i fod wedi creu, ym marn y beirniad hwn, linell orau'r gystadleuaeth, 'Gwanwyn oedd o ganu'n iach' wrth ddisgrifio bechgyn Wcrain a Rwsia'n cychwyn i'w marwolaeth yn nhymor gobaith ac aileni, dyfarnaf y Gadair a phob anrhydedd i **Gogor Bach**.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Bl 7-9, ‘Fi fy hun’

20 ymgeisydd. Cystadleuaeth ddiddorol a’r egin feirdd yn cael hwyl ar y cyfan wrth ddylunio eu hunaniaeth a’u personoliaeth. Mae’r rhai cryfa’n datgelu eu teimladau a’u dyheadau ac yn gallu sefydlu rhythmau yn eu cerddi. Mae’r cystadleuwyr llai llwyddiannus yn bodloni ar restru’r pethau maen nhw’n mwynhau eu gwneud a’u mynegiant yn aml yn darllen fel brawddegau o ryddiaith.

1. Celyn Deryn 5074 2. Bili-ynydd / Cigfran 3. Hafan / Dinesydd diniwed

Celyn Deryn yw gwir fardd y gystadleuaeth. Mae’n creu trosiad grymus lle mae e neu hi ei hun fel cwch yn llywio ar draws môr garw bywyd.

‘Ar fôr tymhestlog fy mywyd / y cwch sy’n bobian i fyny ac i lawr, / y da a’r dyrys yn donnau yn golchi drosof, / a minnau’n llipa / yn llanast llwyd y lli ..’

Gwelir dylanwad crefyddol ar y gwaith, a cyfoethogir y gerdd gan ambell ymdrodd o’n hemynyddiaeth.

Bl 10-13, ‘Newid’

13 ymgeisydd. Mae’r rhan fwyaf o’r cystadleuwyr yn dangos geirfa eang ac uchelgais i fynegi syniadau. Gwendid llawer ohonyn nhw yw eu bod yn trafod newid fel rhywbeth haniaethol, sy’n arwain at gerddi sy’n traethu yn hytrach nag awgrymu. Mae’r goreuon yn disgrifio enghreifftiau gweladwy o newid â rhythm sicr yn eu llinellau.

1. Ap Hedd 2. Alanreet 3. Awyrennau papur

Y Gadair

Daeth 11 ymgais ar y Gadair i law. Nid yw ‘Cysgodion’ yn destun newydd, ond mae’n cynnig nifer di-ben-draw o bosibiliadau i’r beirdd, a chafwyd amrywiaeth sylweddol o themáu yn eu gwaith. Rwy’n didoli’r cynigion yn ddau ddosbarth. Dyma ychydig o sylwadau ar bob un, nid mewn unrhyw drefn teilyngdod o fewn eu dosbarth.

Yr 2ail ddosbarth

Rhiwen: Awdl ar bedwar gwahanol fesur, a’r gwrthdaro rhwng Israel a’r Palestiniaid yw’r mater. Cynganeddwr digon galluog yw Rhiwen, mae swmp o waith yma, ac mae’n cynnal stori ei awdl hyd y diwedd. Mae yma ambell wall gramadegol, fel ‘i hwy’ a ‘drwy hwy’, ac mae nifer o linellau braidd yn aneglur neu’n dangos straen, fel ‘Had daniai anghytuno’. Byddai’r awdl yn gryfach petai llai o eirfa haniaethol, e.e., ‘Ar rai a daenodd hwy a’u crediniaeth.’ Gellid canolbwyntio ar ffawd un teulu o Balestiniaid neu Iddewon i wneud y gerdd yn fwy gweladwy.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Garthlas: Cyfres o bedair cerdd rydd, ond nid oes dilyniant i'w weld. Mae pob un yn dwyn yr un teitl, 'Cysgodion'. Mae'r grefft yn hyderus, llinellau o hyd cyson a llawer i gyffyrddiad o gynghanedd. Ceir ambell ddelwedd effeithiol, megis, 'Doluriau ar ben talar, / Cwysi hir o gasineb.' Ond braidd yn gymysglyd yw'r gerdd gynta, a'r ail gerdd yn ddryslyd gyda llinellau fel, 'Ymyrraeth, mae'n waeth, mae'n hyll, / aflonyddwyd yn y gwyll ..' Dengys Garthlas addewid sicr, ond byddai darluniau cliriach yn cryfhau'r gwaith.

Gole'n gwanhau: Cyfres o chwe cherdd, pob un â rhif blwyddyn uwch ei phen o 2019 hyd 2024. Mae'r iaith lafar yn helpu creu cameos bach, byw, ymhob cerdd, tra mae sawl cyffelybiaeth wreiddiol, fel, ''y meddwl fel barcud heb gordyn.' Bardd dawnus, ond yn anffodus, mae'n anodd gweld unrhyw gysylltiad rhwng y cerddi nag â'r testun 'Cysgodion,' a'r gystadleuaeth yn gofyn am 'ddilyniant.'

Mared: Ymson hoffus tra mae'r bardd yn aros mewn parc rhwng apwyntiadau ysbyty. Clywn yr argraffiadau sy'n croesi meddwl y bardd wrth aros, a cheir naws hiraethus wrth iddo gofio am rai nad yw yno mwyach. Ceir ambell ddelwedd trawiadol fel y tri chraen sy'n ffurfio Golgotha ar y safle adeiladu, a cheir cyfeiriadaeth ogleisiol at farddoniaeth Waldo. Ond gwelir rhai llinellau rhyddieithol hefyd, a'r gerdd yn troi yn ei hunfan, braidd.

Neon: Cerdd vers libre ddiffuant yn portreadu dyn digartref ar strydoedd y ddinas sy'n marw yno yn y diwedd. Ceir ambell fflach fel, 'stryd / nad yw'n arwain i unlle / nac yn newid ei thymer..', ond mae rhannau rhyddieithol hefyd, fel sôn am 'gyflwr truenus ..' a 'caiff o nawr / wared o'i holl gysgodion.' Sylwed Neon nad oes angen hirnod uwchben geiriau fel 'gwag', 'te' a 'mwg'.

Rhy agos: Dialog rhwng 'Fi' a 'Fe', a defnyddir rhythmau effeithiol yn y vers libre. Awgrymir i ddechre fod perthynas, dreisgar efalle, ar fin datblygu rhyngddyn nhw, ond buan yr aiff y gerdd yn gymysglyd ac nid yw'r hawdd gweld beth sy'n digwydd. Mae rhai delweddau bachog yn colli eu heffaith oherwydd aneglurder, e.e., 'Ond atgof yn datod / fel neidir yn dadrolio.' Anodd amgyffred sut mae 'Anti Gwen' yn dod i mewn i'r hanes i winio.

Y dosbarth 1af

Rhoddaf bum bardd yn y dosbarth cyntaf. Mae pob un o'r rhain yn fardd o safon sy'n deall ei grefft, a gallan nhw ymfalchïo yn y cerddi maen nhw wedi'u llunio. Dyma nhw, heb fod yn nhrefn teilyngdod.

Awel Afon: Pedwar cywydd byr o wyth llinell yr un. Y thema yw erchyllterau Rhyfel Cartref Sbaen a'r waddol asgell-dde a adawyd ar ei ôl yn y Cortes a phlaid Vox. Cawn ddarluniau iasol o dre Belchite a adawyd yn adfeilion, a'r henwyr sy'n cloddio am gyrff Gweriniaethwyr a saethwyd yn Priaranza del Bierzo. Mae'r gynghanedd yn llyfn, os yn syml at ei gilydd, 'Mae tref Belchite'n sefyll / yn unig iawn yn y gwyll', ac mae ambell wall fel 'Mentro i ddatguddio bedd' (dim cynghanedd), ac nid yw 'gwyn' yn odli gyda 'gwenwyn' – bai lleddf a thalgron.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Cyhŷdd: Un gerdd vers libre yn disgrifio'r profiad o eistedd yng Nghadeirlan Llan-daf. Mae yma ddarlun cyfoethog o naws a lliwiau'r prynhawn ac effeithiau golau'r haul sy'n ymbelydru trwy'r ffenestri. Ceir trosiadau fel, 'pan gydia bysedd rhosynnog yr haul / yng nghwr carthen y gorwel, / a'I thynnu dros wely'r dydd ..' Er hynny, mae ambell ddisgrifiad yn taro'n chwithig, fel yr Esgob William Morgan ' .. a hoeliodd y Gymraeg ar ein hil.' Yna, sôn yn y diweddglo am '.. cysgodion y gorffennol … yn goleuo fy myd.' Cysgodion yn goleuo? Yn wir, nid yw cysgodion yn amlwg iawn trwy'r gerdd.

Gogor Bach: Cyfres o saith cerdd gaeth, tair yn un pennill. Gan ddechre gyda cherdd teimladwy am ei ddiweddar dad, aiff y bardd ymlaen i drafod y trallod yn Wcrain a Gaza, cyn chwilio am fodd i chwalu'r cysgodion hynny, a'i gael mewn maddeuant a neges 'Meseia' Handel. Mae'n feistr ar y gynghanedd, yn ei thrin yn gywrain i fynegi ei ofidiau, 'Ymestyn rwyf am ystyr / byd o boen bywydau byr.' Mae'r cerddi hefyd yn ffurfio cyfanwaith taclus o ddatblygiad syniadau. Yr un amheuaeth yw nad yw'r gerdd agoriadol am y tad â 'dylanwad ei lawenydd' yn eistedd yn gyfforddus yn natblygiad y gwaith.

Osian: Pedair cerdd vers libre am ymweld â lleoliadau yn Sain Ffagan. Mae gafael hyderus iawn ar iaith gan Osian a naws deimladwy i rai o'r disgrifiadau. Cyfoethogir y mynegiant gan y defnydd o drosiadau, fel castell Sain Ffagan yn 'iarlles o gastell … tapestri'r gerddi'n fantell amdani ..' a'r coed addurniedig yn 'angylion ein hamserau'. Fodd bynnag, gwelir rhai rhannau eitha niwlog eu hystyr, fel yr anesmwythyd yn ail hanner 'Canu carolau' ac arwyddocâd tician y clociau yn niweddglo 'Calan Gaeaf'.

Osian 2: Pump o gerddi ar wahanol fesurau caeth. 'Cysgodion' y bardd yw cymeriadau'r gorffennol a'r waddol maen nhw wedi'i gadael i ni heddiw. Cynganeddwr rhwydd yw Osian 2 sy'n gwybod sut mae cyfleu teimlad trwy ei ddelweddau. Mae'r gerdd 'Daniel Williams Bardd Gwlad' yn creu awyrgylch heintus wrth ddisgrifio adfail y fferm, 'Rwbel, a darn o gribyn – o rywfath / fu'n crafu pob gronyn / o'r mawn yn fara menyn'. Ond mae yma hefyd nifer o frychau yn y cynganeddion, e.e., 'Mae cadlas o goed gleision', ' .. – mae ymson / ac amser diderfyn ..', ac ambell linell ddiystyr fel '.. a'r rhedyn eu gwaredu.'

Mae safon y pum gwaith yn y dosbarth cyntaf yn uchel iawn, ac mae angen dechre hollti blew i wahaniaethu rhyngddyn nhw. Yn y diwedd roedd yn ddewis rhwng Gogor Bach ac Osian (Sain Ffagan). Am fod ei gerddi'n ffurfio mwy o ddilyniant a chyfanwaith, am ei gywirdeb, a'i fod wedi creu, ym marn y beirniad hwn, linell orau'r gystadleuaeth, 'Gwanwyn oedd o ganu'n iach' wrth ddisgrifio bechgyn Wcrain a Rwsia'n cychwyn i'w marwolaeth yn nhymor gobaith ac aileni, dyfarnaf y Gadair a phob anrhydedd i Gogor Bach.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Englyn: 'Gobaith'

Cafwyd 14 o englynion, a bu'n gystadleuaeth ddifyr. Does dim cynghanedd yng ngwaith Bill-iynydd a dwy linell anghywir yn englyn Cân Cŵn, e.e., 'Am ein haul i ddod yn ôl' – heb ateb yr -M ar ddiwedd 'am'. Mae gweddill y cystadleuwyr i'w canmol am gywirdeb eu crefft.

Mae nifer o'r englynion yn dechre'n addawol ond yn colli eu plwc yn yr esgyll, megis Dilys a'r llinell glo drwsgl '.. Pan ein tir cyn hir gawn hau', a Disgwyl Sion gyda '.. glain (?) yn llu / oherwydd ei lythyru.'

Dyma'r pedwar gorau.

Nos Galan: A'r flwyddyn nawr yn huno, - a'i briwiau

A'i braw yn encilio,

Daw gwawr aur o grud y gro

Yn freuddwyd sy'n gwefreiddio.

Trosiadau cyferbyniol da yw un flwyddyn yn 'huno' a'r un newydd yn deffro o'r crud. Efalle bod y naws braidd yn haniaethol gyda geirfa fel 'briwiau', 'braw', 'freuddwyd'.

Zelensky: Yn niffeithdir fy rhandir i – yn awr

Mae'r erwau'n fieri ,

Ond o werth ein haberth ni

Y daw rhosod o'r drysi.

Dyma'r gobaith am adferiad i wlad Wcrain. Hen drawiad haniaethol yw 'gwerth / aberth' a byddai llinell wahanol yma yn cryfhau'r gerdd.

Llongwr: Fenyw deg wrth fin y don – er hwylio

Ar heli gobeithion,

Boed i rwyd dy freuddwydion

Sgubo'r lli a llenwi'n llon.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Dymuniad hyfryd i rywun sydd ar fin antur newydd megis swydd newydd neu briodas. ‘Er mwyn’, mae’n debyg, yw ystyr ‘er’ yn y cyrch. Effeithiol iawn yw trosiadau ‘heli gobeithion’ a’r rhwyd yn ‘sgubo’r lli a llenwi ..’ Ond braidd yn chwithig yw’r cyfarchiad amhersonol ‘Fenyw deg ..’

Beaufort: Wedi’r ddamwain, llywia’r neiniau – ei gwch

Â gwynt eu gweddïau,

Heb ŵyr i’w weld o’r cei brau,

Cynullant wawl canhwyllhau.

Gellir synhwyro trasiedi deuluol yn gefndir i’r englyn dwys hwn. Yr ŵyr wedi marw, ond y ddwy nain yn gyrru cwch yr ymadawedig i’w fan gorffwys ‘.. â gwynt eu gweddïau’, ac yn cynnau canhwyllau eu gobaith ar ‘cei brau’ y byd hwn. Trosiadau gafaelgar, a Beaufort sy’n teilyngu’r wobr gyntaf.

Englyn Ysgafn: ‘Y deintydd’

Daeth saith ymgais ar destun ‘Y deintydd’. Nid gwaith hawdd yw llunio englyn cywir sydd hefyd yn dangos rhyw ffraethineb, a dim ond un neu ddau ymgeisydd a lwyddodd, mewn gwirionedd.

Billi-ynydd: Dim cynghanedd yn un o’r ddau englyn.

Rhiwen: Rhaid ynganu ‘Brasil’ yn ddiacen er mwyn y mesur. Anodd gweld ystyr yn yr esgyll.

Cwsmer: Englyn cywir, ond linell glo aneglur.

Hylenydd: Englyn taclus iawn, ond canmol y deintydd mae hwn! Angen ailedrych ar gystrawen y llinell glo; ‘I wneud i ’ngwenau ledu’ fyddai’n gywir.

Dyma’r ddau orau.

Ng-Ng- Ng- Ng – Ng: Ymdrech lew ar ysgafnder, ond gormod o restru geiriau yn yr esgyll.

Yn ei gadair roedd Eirian – yn bur gaeth

I’w bregethau brwmstan.

Heb olchi, gloywi, ceg lân,

Pwdin, twll, cwymp dant allan.

Drilio’n ddwfn: Ergyd orau’r gystadleuaeth yn y llinell glo. Hwn sy’n fuddugol.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Y rhwygo barodd regi, - y ddanno'dd

A ddenodd y bwli,

Godde cur heb dosturi,

Ei phoen yn waeth 'rôl y ffi!

Y Gerdd Rydd: 'Heddwch'

Pump a gynigiodd ar y Gerdd Rydd. Er mor ddiffuant yw'r cynnwys, gwendid Amranwen, Cofi Bach a Gwern yw'r dweud cyffredin, rhyddieithol, e.e. '.. Miloedd o blant ar drugaredd / haint sy'n bygwth rheibio eto ..' , neu fynegiant annaturiol fel ' .. y gwanwyn yn blodeuo ei gleifion ..'

Yn ei gerdd am effeithiau rhyfel Yom Kippur, mae mesur ac odl Duriolwr yn codi ei fynegiant ychydig yn uwch, e.e.,

'.. tasg teulu sy heb ddallt, / fydd cyfri eu colledion / trwy lu o ddagrau hallt.'

Ymdrech ar soned, tebyg iawn, yw cerdd Morgrugyn Pitw Bychan, er bod rhythm y llinellau'n anwastad. Disgrifiad lliwgar o ryfel a roddir yma i ni, '.. Tân a chreigiau'n hedfan yn wyllt trwy'r nen, / yr awel drymaf yn llawn dagrau dyn, / a'r lleisiau'n bloeddio am i'r uffern ddod i ben .. / a'r brwydro'n parhau trwy'r oriau mân, / gyda'r bwystfil yn cymryd y gwannaf ..'

Gorffen y gerdd gydag ambell gwestiwn rhethregol i ni am natur heddwch. Cerdd lle gwneir defnydd da o adnoddau iaith wrth ymdrin â'r testun ar ei ben. Y Morgrugyn Pitw Bychan biau'r wobr.

Cerdd Gaeth: 'Tymhorau'

Dim ond tri a fentrodd i'r maes hwn. Caed cerdd ddeniadol mewn mesur ac odl gan y Morgrugyn Pitw Bychan, ond, gwaetha'r modd, does dim cynghanedd ynddi.

Gweld tymhorau'r rhod yn adlewyrchu oed a heneiddio dyn y mae Rhiwen. Awdl fer sydd ganddo a'r cynganeddion yn gywir. Yn anffodus, aneglur iawn yw llawer o'r mynegiant, e.e. dechreua'r gerdd fel hyn: 'Craffu efo'r corff ifanc / ydyw'r llwybr darai y llanc / godai o flaidd gyda'i flys ..'

Os taw dysgu'r gynghanedd mae Rhiwen, mae wedi cael crap da ar yr hanfodion. Bellach dylai geisio creu darluniau syml a gweladwy sy'n dweud stori neu'n crynhoi rhyw deimlad.

Bardd gorau'r gystadleuaeth yw Y Drefn Dragywydd ac i hwn aiff y wobr gyntaf. Cywydd a greodd sy'n cyfleu'r syniad bod hadau marwolaeth natur yn yr egino cynnar a bod bywyd

newydd yn codi o ddadfeilio'r twf: 'Yn egino y gwanwyn / a thwf a maeth hafau mwyn / .. y mae gwae storm y gwywo / .. yn gudd trwy'r genynnau'i gyd', gan orffen, 'Ac o'r beddrod cyfodi / I barhau y wyrth a'i bri.'

Cyfansoddi emyn: 'Emyn priodas'

Mae gwaddol emynyddiaeth Gymraeg gyfoethog y gorffennol yn drwm arnom, yn enwedig y rhai a fagwyd mewn capel neu eglwys, a'r ieithwedd a'r eirfa'n rhan o'n cynhysgaeth. Oherwydd hyn, tasg go heriol yw cyfansoddi emyn newydd, gwreiddiol, heb adleisio rhai o gyffyrddiadau'r gorffennol.

Mae pum darpar emynydd wedi rhoi cynnig arni.

Ceir newydd-deb a dymuniadau diffuant yn rhythmau Conffetti (neu DP?), ond dylai wylio'i sillafu, e.e. 'Disglaer peri'i haddinedu ..'

Emyn traddodiadol iawn ei ffurf yw eiddo Gwawr. Mae'n bwrpasol iawn ar gyfer priodas er bod ychydig o hen flas ar ymadroddion fel 'Gochel hwy o dan dy adain ..' a 'gwerthfawr drysor ..' , a gwylier gwallau gramadegol fel 'eu dau', a 'bob dydd o'i (='u) hoes'.

Synnwn i ddim nad oes perthynas agos iawn rhwng Gwawr a Mererid am fod y ddwy'n rhannu yr un mesur a llawer o'r un eirfa yn eu hemynau. Gwelwn hefyd yr un ffurf amheus 'wrth 'ddynt ..' yng ngwaith y ddwy. Eto, does fawr o'i le ar gynnig Mererid ond rhyw deimlad 'Clywes i hwn o'r blaen.'

Emyn bywiog a chynnes yw gwaith Esperemos. Fodd bynnag, peryglus yw dymuno cnwd o 'blantos hapus yn llawn sbri' i'r pâr sy'n priodi – efalle bod y plant ganddyn nhw eisoes, neu nad ydyn nhw'n dymuno cael epil. Y dyddiau hyn, hefyd, mae angen i'r emyn fod yn addas i gwpl o'r un rhyw.

Yr emyn sy'n apelio fwyaf yw gwaith Ffynnon. Mae'r penillion yn llyfn a chanadwy, yr eirfa'n tyner ac eto'n ddigon ffres. Cryfder mawr yr emyn yw delwedd y ffynnon, 'Peraidd fyddo dŵr eu ffynnon, / dafnau hon sy'n risial glân, / a'i chysuron yn troi beunydd / gartref dau yn ffrwd o gân.' Egyr y pennill olaf gyda'r deisyfiad 'Cadwa'u ffynnon mwy rhag sychu / er mwyn troi eu llain yn ardd ..' Emyn cwbl addas a graenus, a'r newydd-deb yn plesio. Gwobrwyer Ffynnon.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Ffotograffiaeth

Cyst 27 - Tymhorau

1 Golwg Tywi - Wedi llwyddo i gael 2 tymor mewn un llun. Mae'r eira yn cyfleu'r oerni sy'n mynd gyda thymor y gaeaf ond mae'r Genhinen Pedr gyda'i lliwiau llachar yn erbyn yr eira yn dangos yr amser gwell i ddod gyda'r gwanwyn yn dod a bywyd fresh.

2 Cranc Coch - Gaeaf -Mae'r ffotograffydd wedi defnyddio techneg dda. Wrth symud y camera yn agos i'r ddeilen mae'r ardal sydd mewn ffocws yn un cyfun iawn sy'n creu effaith bokeh yng nghefndir y llun. Mae hyn yn tynnu'r llygad at y pwynt ffocws sef canol y llun yn yr achos hwn.

3 Afal - Yr Hydref - cynhaeaf. Hoffi hwn oherwydd mae'n anodd cael y golau'n gywir wrth dynnu llun gyda llawer o awyr ynddo. Yn aml chi nail ai'n cael yr awyr yn gywir ac mae'r llun mwy fel silhouette neu'r gwrthwyneb gyda'r awyr yn over exposed. Beth mae'r ffotograffydd wedi gwneud yw aros nes diwedd y prynhawn pan fod yr haul ddim mor gryf cyn tynnu'r llun

Pluen Eira - Debyg Iawn I ymdrech arall yn y gystadleuaeth ond nid yw cyfansoddiad y llun yma cystal. Mae'r ardal sydd mewn ffocws ddim yn un diddorol.

Cyst 26 - Tyfu

1 Blodyn - Hoff iawn o'r llun yma. Mae'r ffotograffydd wedi fframio'r llun yn wych. Pe bai'r camera wedi pwyntio i fyny neu i lawr ychydig bach fyddai'r golau ddim cystal. Chi'n gallu gweld fod y blodyn yn tyfu tuag at y golau, mae fel eu bod yn ymestyn eu gwddf i fyny er mwyn cael bob diferyn o olau y gall.

2 Broga - beth ddwi'n hoffi am hwn yw bod y cylchoedd o dail yn tynnu chi fewn reit i ganol y llun lle mae'r tyfiant diweddara. Mae'r dail yn y canol yn ifanc ac mae'r gwyrddni yn llawn vibrance

3 Crwban - Defnydd da o'r pwynt ffocws gydag eich llygaid yn cael eu tynnu at y blaguryn. Chi bron yn teimlo fel bod y buds llawn egni ac yn barod i ffrwydro gyda thyfiant Newydd.

Moronen Oren 1 - ymgais dda yn dangos blodyn yn eu llawn potensial drws nesa i flodyn sydd wedi mynd drosto ac yn dechrau gwywo

Moronen Oren 2 - methu gweld y cyswllt gyda'r thema ac os oes yna un yna ddim yn ddigon amlwg

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Cyst 25 - Tywydd

1 Moana - Gallu gweld effaith glaw trwm gyda'r caeau o dan ddŵr wedi i'r afon gorlifo ond mae yna lygedyn o obaith wrth i'r haul torri trwy'r cymylau. Mae llawer o feddwl wedi mynd i mewn i'r llun hyn. Mae'r ffotograffydd wedi ymdrechi i ddefnyddio'r dechneg o dorri'r llun i mewn I 3 rhan. Mae'r tir yn cymryd y traean isaf gyda'r dŵr ar coed yn y cefndir yn cymryd y traean canol sy'n gadael yr awyr i gymryd y traean olaf. Gan eu bod yn saethu yn syth i mewn i'r haul mae'r ffotograffydd nhw wedi defnyddio'r goeden er mwyn cuddio peth o'r haul ond hefyd wedi dewis gwneud y llun yn un du a gwyn. Mae lluniau du a gwyn yn gallu bod yn llawer mwy maddeugar pryd mae gyda chi gwahaniaeth mawr yn lefelau'r golau o fewn y llun.

2 Tywysoges - Effaith y tywydd eto'n glir. Y peth cyntaf death i fy meddwl oedd pa mor drist mae'r dderwen yn edrych. Wrth wneud bach o ymchwil i mewn i metadata'r llun mae modd edrych ar fanylion fel pa gamera/ffon cafodd eu defnyddio ond yn yr achos hwn beth wnaeth tynnu fy sylw yw ble cafodd y llun eu tynnu - ardal Caerfyrddin. Yn syth mynd yn ôl a fi i fy mhlentyndod a'r hanes lle fyddai Caerfyrddin yn boddi os fyddai rhywun yn torri'r hen dderwen i lawr. Mae'n edrych yn debyg efallai daw'r chwedl yn wir os na wnawn ni rhywbeth i edrych ar ôl ein hinsawdd.

3 Enfys - Beth gwell i godi calon na gweld enfys ar ôl cawod o law. Wedi gobeithio y gallem weld diwedd yr enfys er mwyn gallu chwilio am y crochan llawn aur!!

Diolch i bawb am eu hymgeision

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Rhyddiaith

CYSTADLEUAETH Y FEDAL RYDDIAITH: Darn o ryddiaith heb fod dros 2,000 o eiriau – Doethineb

Ymgeisiodd chwech am y fedal eleni, ond bu'n rhaid diystyru cynnig *Dylan* cyn cychwyn am fod y stori fer 'Rhychau amser' ymhell dros y terfyn geiriau a osodwyd ar gyfer y gystadleuaeth.

Yn gyffredinol, doedd hon ddim yn gystadleuaeth neilltuol o gryf, ond roedd hi yn gystadleuaeth *ddifyr*, ac yn cynnwys mwy nac un llais bywiog, annisgwyl. Braf o beth oedd gweld hiwmor ac abswrdiaeth yn cael lle yng ngwaith mwyafrif yr ymgeiswyr; gall hynny fod yn brin mewn cystadleuaeth o'r fath lle mae pynciau dwys yn fwy tueddol o fynd â bryd sgwennwyr. Tydi 2,000 o eiriau ddim yn llawer, mewn difri – mae gofyn gwasgu hyd yn oed stori fer i derfynau o'r fath, ac felly mae angen syniad sy'n ddigon cyflawn o fewn hynny o eiriau i beidio gorfodi pethau i orffen ar ras, neu adael gormod heb ei ddweud. Mae goreuon y gystadleuaeth wedi gwasgaru ergydion eu gwaith yn hafal dros y lle sydd ar gael, tra bod ambell un arall wedi cael ei wasgu wrth weld y terfyn geiriau'n dod. Straeon byrion oedd dewis ddull pob cystadleuydd; mae'n werth nodi y byddwn wedi croesawu ysgrifwyr hefyd, gan nad yw geiriad y gystadleuaeth yn rhoi gofyniad am ffuglen o reidrwydd. Yn wir, mae'n bosib y byddai ysgrif dda wedi ffitio'n dwtiach o fewn 2,000 o eiriau na mwyafrif y straeon byrion. Waeth beth am hynny, cefais amser braf yng nghwmni'r pump y bûm yn eu hystyried; mae gan bob un ohonynt afael sicr ar y Gymraeg, dychymyg byw, a'r gallu i briodi'r ddeubeth hynny er mwyn ysgrifennu'n greadigol.

Yn eironig, dim digon a gafwyd gan yr awdur gyda'r ffugenw *Rhy Gormod*. Cyfres o sefyllfaoedd sy'n codi wrth wynebu'r dasg o drefnu angladd tad y llefarydd a gawn; o'r trafodaethau lletchwith gydag ymgymerwr di-ddallt i'r cwffio i gael cynnal y gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r ysgrifennu doniol, hunan-ddychanol yn wreiddiol iawn ar adegau:

> Gallwn ei weld yn sefyll yn eu cegin oer a'r muriau wedi eu baricedio gan dorthau bara brith, fel sandbags yn amgueddfa Vimy Ridge.

Y broblem i mi gyda gwaith yr ymgeisydd hwn oedd nad oeddwn i'n siŵr a fwriadwyd i mi gymryd yr holl beth yn ysgafn ai peidio. Oherwydd y gwamalu, roedd manylion bach tyner a chrefftus am ymateb y llefarydd i farwolaeth ei thad yn mynd ar goll – y sôn amdano'n llithro'n 'gofiant arall i'r pentwr cofiannau wrth ochr y gwely', neu'r awydd i wasgu 'botwm *rewind* ar beiriant casét amser' a chael popeth yn ôl fel y bu. Nid annog diffyg cynildeb fyddai annog *Rhy Gormod* i ymestyn y darn hwn; yn enwedig yn achos y diweddglo, nad yw'n teimlo fel diweddglo mewn difri ond fel rhywbeth wedi'i adael ar ei hanner.

Yn stori fer annisgwyl, swreal a thywyll *Coch y Bonddu*, 'Doethineb Solomon', rydym yn cyfarfod rhai o weithwyr yr 'Hen Ffatri' wrth iddynt ymgynnull o flaen eu 'Rheolwr' (priflythyren) i dderbyn y dasg gwbl ddibwrpas o geisio llenwi rhidyllau â dŵr cyn eu taflu, wedi eu defnyddio unwaith, i'r bin sbwriel. Mae holl weithwyr 'Y Cwmni' (priflythyren eto!) yn derbyn y gwaith yn ddigwestiwn, ar wahân i Solomon, sy'n gwrthwynebu, ac yn gadael er mwyn mynd i bysgota, gan dderbyn ei fod yn peryglu'i gyflogaeth wrth wneud hynny. Mae'r stori wedi'i thorri yn bum rhan, gan arwyddo'r gofal a gymrodd yr *Coch y Bonddu* wrth saernïo eu stori. Yn hytrach na digwyddiadau mawr, canolbwyntiodd yr awdur ar ymwneud y pedwar cymeriad a enwir â'i gilydd; ac er y teimlir fod pob cymeriad yn cynrychioli 'math' penodol o bersonoliaeth a swyddogaeth o fewn y stori, llwyddodd i wneud hynny at ei gilydd heb estyn am ystrydebau hawdd. Mae arddull bron yn rhodresgar yr ysgrifennu yn gweddu'r abswrdiaeth i'r dim:

> Rhaid egluro fod Neifion yn credu fod y swyddogaeth flaengar a gymrodd arno'i hun, i fod yn siaradwr ar ran ei gydweithwyr, yn syniad penigamp. Oherwydd mae Neifs â'i fryd ar ddringo'r rhengoedd o fewn y Cwmni. Felly, wedi'r pesychiad strategol, dyry broc geiriol i'r Rheolwr trwy ddweud fod pawb yn bresennol, a gofynna tybed a oes modd cael gwybod beth yw tasgau'r dydd.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Dyma stori y des i yn f'ôl ati, a'i phrocio i ganfod mwy yn cuddio dan y wyneb; mae'r diweddglo yn annisgwyl ac yn rhoi digon inni dynnu ein casgliadau ein hunain ynghylch union natur yr hyn sydd wedi digwydd. Cam gwag oedd cynnwys y llinell olaf, ond peth hawdd iawn ei ddatrys yw hynny!

Stori arswyd a gafwyd gan *Gair i gall*, lle mae Aled ac Enid trwy chwilfrydedd yn cyrraedd tŷ hanesyddol Hendre Dywyll, ac yn cyfarfod y deiliaid presennol, Daren a Susan. Mae'n cychwyn yn gryf, heb roi gormod o gliwiau i ni sut hanes fydd hwn (yn wir, dechreuais ddarllen gan ddisgwyl stori fer am yr argyfwng ail gartrefi). Yn raddol sylwir nad yw popeth fel y dylai fod gyda'r tŷ a'r pâr sy'n byw ynddo. Er bod y datgelu araf hwn yn grefftus ar y cyfan, roedd rhai o'r awgrymiadau yn llai na chynnil a gellid bod wedi gwella arnynt; er enghraifft, nid yw'r frawddeg lle mae un o'r prif gymeriadau yn sylwi ar y gyfrol *Organ Transplantation in the Modern Era* ar silff yn y tŷ – a hynny lai na hanner ffordd drwy'r stori – yn gadael llawer o amheuaeth ynghylch natur y diweddglo arswydus. Mae gan *Gair i gall* ddawn i greu byd a chyd-destun ehangach sy'n dal y stori yn ei lle, gan gynnwys y cyfeiriadau at waith Daren yng ngogledd Iwerddon cyn iddo ymddeol, ac at hanes Hendre Dywyll:

> [...] ma'r tŷ hyn wedi newid shwt gymaint dros y blynydde. Flynydde maith yn ôl, un o ddisgynyddion Iestyn ap Gwrgant oedd yn byw yma. Fe, os cofiwch chi, wna'th adael i'r Normaniaid oresgyn Bro Morgannwg.

Mae'r diweddglo, fel mwy nac un yn y gystadleuaeth, yn digwydd ychydig yn rhy sydyn. Fe ddefnyddiodd yr ymgeisydd hwn bob un o'r 2,000 o eiriau oedd ar gael, ac fy nheimlad felly yw mai deunydd darn hwy sydd yma o bosib, a phe byddai'r awdur wedi cael ychydig yn fwy o le i ymestyn eu camau, y byddent yn medru cyrraedd tir uwch yn yr ornest hon.

Glen, wedyn, a roddodd inni stori Robin, sy'n dychwelyd i strydoedd dinas ei febyd wedi pymtheg mlynedd i ffwrdd, ac yn penderfynu gweithredu yn erbyn y datblygwyr a weddnewidiodd yr ardal a arferai fod mor gyfarwydd iddo. Hwyrach fod y cyferbynnu rhwng y Prif Drefnydd maleisus a Robin braidd yn or-syml; ac yn wir, mae'n deg dweud na lwyddodd y cysyniad yma ar ei hyd fy argyhoeddi yn llwyr. Roedd gen i ormod o gwestiynau'n parhau am yr hyn a fyddai wedi digwydd yn y blynyddoedd rhwng plentyndod Robin a dychwelyd yn ddwy ar hygain oed i achosi iddo droi at hunanfomio fel protest yn erbyn gweithredoedd y datblygwyr. Serch hynny, mae'r awdur yn rhoi bys ar bwnc cyfoes perthnasol iawn, hyd yn oed os nad yw'r ymdriniaeth wastad yn taro deuddeg. Mae'r awdur yn rhoi bys ar bwnc cyfoes perthnasol iawn, ac mae hynny i'w ganmol, ond gall yr ysgrifennu – yn enwedig lle mae'n manylu ar agweddau'r datblygydd – droi'n stroclyd neu bregethwrol ar brydiau:

> Yn wir, gwaetha'r modd, roedd ambell adeilad hanesyddol, ambell gapel ac eglwys hyd yn oed, wedi gorfod cael eu cau. Trueni mawr oedd hynny ond, neno'r tad, roedd ystadegau'r colledion yn well na'r hyn a gafwyd yn hanes nifer o ddinasoedd y byd. Ac o roi popeth yn y glorian, roedd y ddinas hon a'i chynllunwyr yn haeddu pob canmoliaeth a chlod.

Unben yw awdur mentrusaf y gystadleuaeth o ran ffurf. Mae stori fer yr awdur hwn wedi'i llunio trwy gyfuno nifer o gyfryngau gwahanol – e-byst, monolog, toriadau newyddion, cofnodion cyfarfod a chyfweliad. Cefais fy nenu at y gwaith yn syth oherwydd hyn. Yng nghwmni *Unben*, rydym yn dilyn helyntion y cynghorydd diegwyddor a llwgr T. Aman Phillips M.B.E. sydd, wedi iddo golli pleidlais o ddiffyg hyder yn ei arweinyddiaeth, yn derbyn e-bost o ben arall y byd allai gynnwys yr allwedd i adfer ei statws mewn gwleidyddiaeth leol. Rhoddodd *Unben* inni rai o olygfeydd doniolaf y gystadleuaeth, wrth i'r gwleidydd di-siâp dyllu twll iddo'i hun; dyma enghraifft o'r rhan sydd wedi'i hysgrifennu fel 'Cofnodion Cyfarfod Adolygu':

> Pwyntiodd T. Aman at ddrws a dweud fod dwsinau o bobl yn awyddus i gael swydd Dan Blank. Tynnodd Dan Blank sylw T. Aman at y ffaith ei fod yn pwyntio at gwpwrdd lle cedwid ffeiliau'r adran.

Aiff cynnig *Unben* ychydig yn ddryslyd tua diwedd helyntion T. Aman, ac hwyrach y byddai gwerth dychwelyd at adran 'Cofio am flynydde' i ailystyried ac ailweithio rhai pethau i sicrhau fod y ddeialog a'r

digwyddiadau – yn enwedig cymeriad 'brawd y bardd' – yn taro deuddeg. Serch hyn, dyma'r ymgeisydd a wnaeth i mi wenu fwyaf; ac hwyrach bod fy nghyfnod o weithio fel cyfieithydd i awdurdodau lleol yn cynorthwyo fy mwynhad yn hynny o beth.

Gellid gwella a thynhau eto ar waith yr holl ymgeiswyr, ond mwynheais eu cwmni i gyd. Cafwyd y pethau gorau yng ngwaith *Unben* a *Coch y Bonddu*. Teimlwn mai *Coch y Bonddu* oedd yr awdur a lwyddodd i roi'r gorffeniad gorau ar y syniad oedd ganddynt, gan gael y cyfanwaith yn grwn o fewn terfynau'r gystadleuaeth, a chadw ansawdd yr ysgrifennu yn gyson dda trwy gydol y darn. Am hynny, a gwreiddioldeb ac anesmwythyd eu stori fer, gwaith *Coch y Bonddu* sydd ar y brig ac yn teilyngu'r fedal. *Unben* sy'n ail ac mae *Gair i gall* yn drydydd.

TLWS LLENYDDIAETH YR IFANC: Dau ddarn creadigol cyferbyniol – Llanw

(tafolwyd ar y cyd â Robat Powell, y beirniad barddoniaeth)

Gwaith dau yn unig ddaeth i law, sy'n nifer anghyffredin o isel mewn cystadleuaeth fel hon.

Braf oedd cael cwmni *Morgrugyn Pitw Bychan*, y cefais ddarllen eu gwaith yn yr adran agored hefyd. Mae cerdd gynta'r *Morgrugyn* yn disgrifio mynd a dod cyson llanw'r môr, sydd 'yn llyncu'r holl ofnau a'r gobeithion'. Trwy hynny portreadir y llanw fel ryw lyfnwr mawr, nad yw'n dda nac yn ddrwg; ond sy'n rym i'w barchu, ac weithiau'n ddinistriol. 'Bywyd yw llanw' meddai yn y pennill olaf; nid yw'n syniad newydd o bell ffordd, ond mae anwyldeb yn y modd y cafodd ei gyfleu yma.

Mae ail gerdd yr ymgeisydd hwn yn fyr iawn; tair llinell yn unig. Er nad oes yma gynghanedd, mentraf mai ymgais ar greu englyn milwr yw'r darn hwn, gyda llinellau 7/8 sill a phrifodl. Yr un llanw sydd yma eto, sef llanw'r môr sy'n 'llifo fel clocwaith'. Mae elfen o fyfyrdod yr haiku yn y pennill byr hwn, ac er byrred, credaf ei fod yn ymgais fwy llwyddiannus na'r gerdd hirach ddaeth o'i flaen. Gall *Morgrugyn Pitw Bychan* lunio llinellau a phenillion swynol, a gobeithio y bydd yn parhau i fwynhau chwarae â sŵn geiriau.

Dwy stori fer amaethyddol sydd gan *Caradog*, a'r ddwy yn straeon dwys – y naill, 'Y Ddafad', yn bortread o ddadfeiliad cof un o'i phrif gymeriadau, a'r llall, 'Y Ceiliog', yn ymdrin â pherthynas dreisgar.

Mae'r awdur hwn yn ysgrifennu'n fyrlymus a chan fwyaf, yn go gredadwy; mae'r cymeriadau yn fyw iawn a mân-droadau a chymhlethdodau eu perthnasau wedi'u cyfleu yn dda. Ceir deialogi cofiadwy a chyffyrddiadau o hiwmor a'r abswrd weithiau – sy'n gallu bod yn dda o beth pan fo'r pwnc cyffredinol yn un trymaidd. Mae cymeriadau fel 'Meryl Meddwl bod Hi' a 'Devena Dweud Dim' sy'n codi yma ac acw yn rhoi ysgafnder ond eto'n gredadwy ac yn tystio i graffter wrth lunio cast ymylol i brif ddigwyddiadau'r straeon.

Does dim dwywaith y gallai *Caradog* ffrwyno'r dweud; byddai llai o gymariaethau yn gwneud y rhai a gynhwysid yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn gwneud camau gwag fyddai'n hawdd eu hunioni gyda phwyll ac ymchwil; er enghraifft, nid yw'r manylion am y gwn ym mharagraffau agoriadol 'Y Ddafad' yn taro deuddeg i mi fel un a fagwyd ar fferm. A dyma enghraifft o'r disgrifio pan fydd yn fwy anghynnil:

> Roedd yr holl gwt yn gwbl gloëdig gyda phileri pren yn fyddin, yr holl ffordd o'i amgylch. Gwifrau metel wedi'u clymu'n dynn o un piler i'r nesaf. Syllai bachau craff y weiren bigog yn fygythiol arnoch.

Byddai llai o bentyrru wedi cynyddu'r effaith – un ergyd iasoer sydd ei hangen, weithiau.

Fel fy nghyd-feirniad, rydw innau'n cwestiynu i ba raddau y llwyddodd yr un o'r ymgeiswyr gyflwyno'r 'ddau ddarn cyferbyniol' y gofynnwyd amdanynt yng ngeiriad y gystadleuaeth; ac mae testunoldeb gwaith *Caradog* yn amheus, er yr ymgais i achub hynny trwy gynnwys cyfeiriad at 'lanw' tua diwedd y ddwy stori. Fodd bynnag, rydw i hefyd yn gweld addewid sicr a gwreiddioldeb yn y gwaith ac am hynny mae *Caradog* yn haeddu'r Tlws.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Cystadleuaeth 1: Rhyddiaith Bl. 2-4 – Cerdyn post

Diolch yn fawr i *Robin Goch* am y cerdyn post o wyliau sgïo ym mynyddoedd yr Alpau, lle mae'n disgrifio'r nerfusrwydd ar y dechrau cyn y mwynhad o wibio i lawr y llethrau. Ar ben y bwyd hyfryd, y chwarae yn yr eira a'r gemau bwrdd, uchafbwynt y gwyliau i *Robin Goch* yw dathlu ei phen-blwydd yn wyth oed yn yr eira. Dyma atgofion hyfryd wedi eu gosod a'u mynegi'n fywiog ac annwyl. Llongyfarchiadau i *Robin Goch*, sy'n cael y wobr gyntaf.

Cystadleuaeth 2: Rhyddiaith Bl. 5-6 – Llythyr diolch

Ni fu cystadlu.

Cystadleuaeth 3: Rhyddiaith BL. 7-9 – Fy hobi

Cystadlodd saith, ac mae rhywbeth i'w ganmol yng ngwaith pob un. Y goreuon oedd y rhai y teimlwn eu bod wedi mynd y tu hwnt, efallai, i dasg a osodwyd yn y dosbarth, a rhoi dogn hael o'u personoliaeth, eu hiwmor a'u bydolwg eu hunain yn yr ysgrifennu.

Ymateb i'r athrawes yn gosod y dasg o baratoi cyflwyniad am 'hoff weithgaredd hamdden' y mae *Biliwnydd*, a chyda hynny down i ddysgu am Ted Jones, a'i obsesiwn gyda chwarae gwyddbwyll. Mae'n poeni'n arw y bydd y plant eraill yn chwerthin am ei ben o ddod i wybod am ei hobi am mai gêm i 'nerds' yw gwyddbwyll. Cawn bortread o blentyn sensitif ac unig – ond angerddol – yn y darn hwn, ac mae'r diweddglo'n drawiadol wrth iddo fyfyrio ar y dasg o'i flaen fel petai'r dasg honno'n gêm ar y sgwariau du a gwyn; mae'n 'gwybod gwyddbwyll a dim byd arall. Dwi wedi cyrraedd stale mate'.

Ar ffurf cofnod dyddiadurol y daeth ymgais *Aderyn Glas* – dyddiadur diwrnod cyntaf gwyliau'r haf. Disgrifiad o fynychu'r parc dŵr ym mae Caerdydd sydd yma, ac mae cyffro'r llefarydd yn heintus. Efallai nad portread o 'hobi' sydd yma mewn difri, ond mwynheais frwdfrydedd yr awdur, a'r disgrifiadau byw a chlir.

Chwarae pêl-rwyd yw hobi Anna yn stori *Afal Coch*, a chawn ddisgrifiad o ddiwrnod y gêm fawr rhwng ysgolion Glantaf a Phlasmawr. Plasmawr sy'n ennill y ddarbi, a threfnir parti annisgwyl i'r tîm buddugol gyda 'canu, dawnsio a bwyta lot o losin'. Dyma sgwennwr byrlymus arall sy'n dod â chyffro'r digwyddiad yn fyw iawn.

Sophie, merch ym mlwyddyn saith sydd wrth ei bodd yn chwarae pêl-droed yw *Cŵl Dŵd*. Mae'n disgrifio ei phrofiad fel 'yr unig ferch ar y cae' yn yr ysgol gynradd, a'i hymdrechion i annog y Pennaeth, Mr. Roberts, i ddechrau tîm merched. Mae'r sylwebaeth yn hynod o graff gan awdur mor ifanc:

> Ro'n i'n hoffi Mr. Roberts. Roedd e'n frwdfrydig am bopeth, ac wir yn siomedig am ddiffyg awydd merched ein hysgol am bêl-droed. Gwnaeth e ddechrau clwb pêl-droed merched, ond dim ond fi wnaeth fynychu.

Fel yn ymgais *Biliwnydd*, ceir portread cofiadwy o'r plentyn sydd â diddordebau ychydig yn wahanol i rai ei ffrindiau; ac ymatebion amrywiol y bobl o'u cwmpas i hynny – y ffrindiau lled-gefnogol; y brawd mawr sy'n ei chyflwyno i dîm Lerpwl, a'r chwaer fach sy'n ei phryfocio ond sy'n barod i gysuro pan mae'i ffrindiau yn troi yn ei herbyn am fod yn 'gymaint o *tomboy*'. Y bechgyn yn yr ysgol wedyn – rhai wrth eu boddau ac eraill yn teimlo dan fygythiad oherwydd dawn Sophie. Roeddwn i'n falch fod y diweddglo yn un cadarnhaol, ac

alla i ond gobeithio fod yr awdur yn siarad o brofiad. Dyma ddarn y gwnes i ei wir fwynhau; nid yn unig am fod yr ysgrifennu'n llifo, ond am fod gan yr awdur rhywbeth pwysig i'w ddweud.

I fyd chwaraeon yr awn ni yng nghwmni *#dramatig123* hefyd, y tro hwn i'r cwrt tenis yn hytrach na'r cae pêl-droed. Mae gan *#dramatig123* hiwmor iach, fel sy'n amlwg o resymeg y frawddeg hon, wrth i'r llefarydd 6 oed chwarae tenis yn erbyn eu tad:

> ... enillais gêm ar ôl gêm yn erbyn dad felly ffoniodd dad ei ffrind gorau sy'n bencampwr tennis yn Wimbledon i weld os oeddwn yn anhygoel o dda am fy oedran neu os mai dad oedd yn wael!

Mae *#dramatig123* yn curo'r ffrind, ac ymhen amser mae'n cystadlu yn Wimbledon ei hun, gyda llygad ar un o wobrau mwyaf anrhydeddus y byd tenis. Dyma ddychymyg a disgrifiadau byw iawn.

Dawnsiwr *ballet* yw *fflamingoporffor*, a hoffais gynllun y darn hwn yn fawr. Caiff y llefarydd glyweliad ar gyfer y sioe 'Swan Lake', ac mae'r sawl sy'n cynnal y clyweliad – 'menyw hyfryd gyda [g]wallt melyn llachar' – yn gofyn y cwestiwn 'pam wyt ti'n dawnsio?'. Yr hyn a gawn wedyn yw monolog fewnol y dawnsiwr gyda'r holl atebion i hynny, ond deallwn nad yw'n llwyddo i ymateb i'r cwestiwn ar lafar. 'Gobeithio yn y dyfodol byddaf yn cofio hyn [...] dweud yn union be sy ar fy meddwl dim ots os nad yw'n gwneud synnwyr i unrhywun arall', meddai. Dyma ddarn sydd yn gwir ddangos cariad *fflamingoporffor* tuag at *ballet*, tra hefyd yn dangos sut y gall mynegi'r angerdd hwnnw fod yn beth anodd iawn i'r llefarydd. Mewn byd mwy deallus ac empathetig, hwyrach y byddai wedi cael y cyfle i fynegi hynny trwy ddawns yn hytrach na thrwy ateb cwestiwn mewn cyfweliad.

Cofnod dyddiadurol a gawn gan *Gorffennaf_11*, sy'n disgrifio'r diwrnod cyntaf o fynychu gwersi gweu *crochet*. Dyma ddarn byw arall, gyda chyffro'r llefarydd yn amlwg drwyddo draw. Hoffais y diweddglo yn fawr, lle mae'r llefarydd, wrth fynd i'r gwely ar ddiwedd diwrnod prysur, yn breuddwydio am greu blanced gyda'u crefft newydd.

Am graffter, dawn disgrifio a pherthnasedd cyfoes, *Cŵl Dŵd* sy'n cael y wobr gyntaf; mae hanes annisgwyl *Biliwnydd* yn ail, a *fflamingoporffor* a *#dramatig123* yn gydradd drydydd.

Cystadleuaeth 4: Rhyddiaith Bl. 10-13 – Erthygl ar bwnc amserol (heb fod dros 300 gair)

Ni fu cystadlu.

Cystadleuaeth 6: Llên meicro – Pe bawn i ... (heb fod dros 250 gair)

Does dim diffiniad twt, hyd y gwn i, am yr hyn a ddisgwylir o lên meicro, ac mae'r terfynau geiriau mewn cystadlaethau fel hon yn amrywio. Roeddwn i'n chwilio am stori fer iawn – darn oedd yn dal i lwyddo i gynnwys rhyw newid annisgwyl o fewn ychydig eiriau, fyddai'n fy ngadael yn teimlo'n wahanol am y cymeriad(au) a'u byd. Mae her ychwanegol yng ngofyniad y gystadleuaeth hon i gynhyrchu darn unigol o lên meicro sy'n sefyll ar ei draed ei hun, gan ein bod yn amlach na pheidio yn darllen llenyddiaeth o'r fath o fewn casgliadau o ddarnau sy'n perthyn i'w gilydd.

Mae *Morgrugyn Pitw Bychan* yn rhestru'r pethau *na* fyddai yn eu prynu pe byddai'n filiwnydd – cwch hwylio, plasdy, dillad drud – gan ddatgelu yn eu brawddeg olaf mai gwario'r arian ar lond tŷ a wnaent pe meddent ar y fath gyfoeth. Mae'n anodd ystyried yr ymgeisydd hwn o ddifri mewn cystadleuaeth agored.

Dilyna ymgais *Ioseff* drywydd tebyg i ddechrau, o ran eu bod yn agor gyda rhestr blentynaidd mewn ymateb i'r sbardun 'Pe bawn i'n brif weinidog'. Mae llais y plentyn yn rhestru pethau fel sicrhau cartref i bawb, a

rhoi terfyn ar ryfela a newyn, ymhlith y deisyfiadau hynny. Ond daw tro yn y darn, a sylweddolwn mai ailddarllen geiriau a roddwyd ar bapur flynyddoedd maith yn ôl yn niniweidrwydd plentyndod y mae'r sawl sy'n llais i'r darn. Wrth lanhau'r tŷ, mae mam Anna yn dod ar draws y papur ac yn gwirioni ar ei darganfyddiad; ond mae'r llefarydd ei hun yn tristhau, gan wybod na '[f]yddai Anna fach ddim yn hoffi'r gwir heddiw'. Hoffais ddatblygiad llên meicro *Ioseff*, ac arddull gyferbyniol y rhannau sydd yn llais y plentyn a'r oedolyn. Hwyrach y gallai'r llinell glo fod fwy amwys, trwy ddangos yn hytrach na dweud sut mae teimladau Anna wedi newid.

Cawn sgwennwr coeth yn *Uned Gofal Dwys* – rhy goeth ar brydiau, hwyrach. Teimlwn mai'r cynildeb a'r tyndra oedd ar goll yn y darn hwn, a roddir yng ngenau unigolyn sy'n glaf yn yr ysbyty – yn anymatebol a disymud. Cyfres o fyfyrdodau sydd yma, am yr hyn y byddai'r unigolyn hwn yn ei wneud pe byddent yn gallu siarad, symud, canu a cherdded. Dyma enghraifft o'r ieithwedd:

> Pe bawn i'n gallu *canu*, fe heriwn i unrhyw eos ar frigyn neu unrhyw ddatgeinydd ar lwyfan i ymuno â mi mewn deuawd wefreiddiol. Pe bawn i'n gallu *cerdded*, byddwn yn erchi i'm traed fy nghyfeirio tuag at gyfnod dilyffethair, yn ôl i gôl cwmnïaeth a rhialtwch fy hen gyfeillion.

Mae'r llefarydd wedyn yn cyfarch y sawl sy'n dod at ymyl y gwely i eistedd am iddynt eirioli ar eu rhan, a mynd i wneud y pethau y bydden nhw'n dymuno eu gwneud pe gallent – 'oherwydd chi bellach yw fy llais, fy nhraed a'm dwylo'. Mae'r ysgrifennu yn gadarn, ond fe'm gadawyd yn oer braidd gan y goreiriogrwydd, er y thema ddirdynnol.

Cydbwyso dau osodiad yw'r hyn a wna *Glenys* ac *Erasmus* ac oherwydd tebygrwydd y fformat a'r fformiwla sydd gan y ddau ar gyfer ysgrifennu llên meicro, tybiaf mai'r un ymgeisydd sy'n cuddio y tu ôl i'r ddau ffugenw. Dyma'r darnau byrraf yn y gystadleuaeth – dau frawddeg yr un; y frawddeg gyntaf yn ymholiad, a'r ail yn ymateb athronyddol i'r ymholiad hwnnw.

Y llwyfan ar gyfer llên meicro *Glenys,* a ddyfynnir yn llawn isod, yw ystafell arholiad mewn prifysgol, wrth i oruchwyliwr a myfyriwr gyfnewid ychydig eiriau.

> Cyn dosbarthu'r papurau arholiad gradd mae'r goruchwyliwr yn mynd i ddesg yn y rhes gefn a gofyn: 'Pwy y'ch chi?'
>
> Cwyd y myfyriwr ei ben. ' 'Sen i'n gwbod yn well, fydden i ddim 'ma.'

Apeliodd y darn hwn ataf o'r cychwyn; cododd wên ac ystyriaeth o-ddifri yr un pryd, ac mae'n hawdd uniaethu â dryswch hunaniaeth cyfnod prifysgol. Yr awgrym yw ei bod yn bosib na fyddai'r myfyriwr hwn wedi mynd i'r brifysgol pe bai'n adnabod ei hun yn well, neu y byddai'n astudio pwnc gwahanol, efallai. Ond hefyd, trwy osod yr olygfa fach hon o fewn sefyllfa arholiad, ac felly ar ddiwedd cyfnod, rydym yn deall nad yw'r myfyriwr unrhyw faint yn nes at ddarganfod pwy ydyw nag ydoedd ar ei ddechrau. Yma, mae'r 'meicro' yn rhoi arwydd inni o ddarlun ehangach, ac mae hynny i'w ganmol.

Mae darn *Erasmus* dipyn yn fwy ystrydebol i'm golwg i, ac os ydw i'n gywir i feddwl mai'r un awdur ydyw, mae hynny yn ei hun amlygu'r ffin denau y bydd awdur llên meicro yn ei droedio wrth geisio athronyddu o fewn cyn lleied o eiriau. Tra y cafodd *Glenys* hwyl dda ar hyn, mae'r sylwi sydyn ar y watsh ddrud fel arwydd o gyfoeth cadeirydd y panel yn stori *Erasmus* yn teimlo fel hen drawiad braidd, ac o'r herwydd nid yw'n ddarn mor effeithiol na chofiadwy. Serch hynny, mae'n ddarn o sgwennu ddiwastraff, sy'n ein gollwng i ganol stori gan roi lle i ninnau ddychmygu'r cyd-destun.

Gosodaf *Glenys* ar frig y gystadleuaeth; mae *Ioseff* yn ail ac *Erasmus* yn drydydd.

Beirnidaethau Gwaith Cartref 2025

Cystadleuaeth 7: Adolygiad – llyfr neu berfformiad o 2024 (heb fod dros 500 gair)

Dewisodd yr unig ymgeisydd, *Morgrugyn Pitw Bychan*, adolygu'r sioe *Hamilton* gan Lin-Manuel Miranda. Mae'n adolygiad cryno fyddai'n gweddu i golofn bapur newydd neu bostiad ar y cyfryngau cymdeithasol, yn hytrach na bod yn ddarn beirniadol mwy treiddgar. Rhoddodd inni syniad o gryfderau'r sioe, gan gynnwys y cast amrywiol (a'r ffaith mai actorion o liw sy'n chwarae rhannau'r 'Founding Fathers'), y coreograffi a'r llwyfannu. O ran cydbwysedd, mae hefyd yn nodi ei bod yn heriol dilyn trywydd y perfformiad ar adegau oherwydd y cyflymder, a bod yn rhaid bod yn astud iawn er mwyn peidio methu dim. Mae'r ysgrifennu, er nad yw'n ddifrychau, yn eglur ac yn syml. Er y byddwn wedi hoffi gweld mwy o dreiddgarwch yn y darn, mae *Morgrugyn Pitw Bychan* yn haeddu derbyn y wobr.

Cystadleuaeth 8: Rhyddiaith y dysgwyr – Y Ddinas (hyd at 200 gair)

Braf oedd derbyn cynigion *Chloe* ac *Amelia* yn y gystadleuaeth hon; y ddwy wedi dewis ysgrifennu am eu hymweliadau â dinasoedd Ewropeaidd.

Cawn ddisgrifiad gan *Amelia* o ymweliad â Barcelona ar gyfer ei phen-blwydd yn un ar bymtheg. Mae'i disgrifiadau yn fyw ac yn llawn ansoddeiriau ac amrywiaeth.

Cyflwyniad i ddinas St. Johan yn Awstria a gawn gan *Chloe*, wrth iddi deithio'r holl ffordd o Gaerdydd ar y bws – 'diolch byth dyma ni'n stopio o dro i dro am saib' – sy'n antur ynddo'i hun!

Does dim llawer rhwng y ddau ymgeisydd yma; maent fel ei gilydd wedi cael gafael dda ar yr iaith, ac yn ysgrifennu'n amrywiol a difyr ynddi. Mae'r sillafu a'r ramadeg yn gywir iawn at ei gilydd ganddynt hefyd. Teimlais fod darn *Amelia* ychydig yn fwy uchelgeisiol o ran y brawddegu, ond mae'r ddau ymgeisydd i'w llongyfarch yn fawr.

Amelia sydd ryw fymryn ar y blaen, gyda *Chloe* yn ail.